**Papur gwybodaeth cyn y ddadl yng nghyfarfod llawn Senedd Cymru ar absenoldebau disgyblion ddydd Mercher 8 Chwefror 2023**

Pwyntiau allweddol

- Mae cydberthynas sylweddol rhwng dysgwyr difreintiedig ac agored i niwed sy'n fwy tebygol o fod â hanes gwael o bresenoldeb a mynychder anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu. Croesawn y ffaith y cyfeirir at y mater hwn o fewn adroddiad y pwyllgor.

- Croesawn ymrwymiad Llywodraeth Cymru i adolygu'r canllawiau ar bresenoldeb, gwaharddiadau ac ymddygiad a rydym yn falch i fod wedi bod yn rhan o drafodaethau cynnar am y dogfennau hyn.

- O gofio am y dystiolaeth gref fod plant a phobl ifanc sydd yn fwy tebyg o fod â hanes gwaelach o absenoldeb hefyd yn fwy tebygol i fod ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu, **mae angen sicrhau fod y gweithlu addysg ehangach yn gwybod am yr anghenion hynny ac y gall y gweithlu adnabod a chefnogi anghenion plant a phobl ifanc yn y maes hwn.**

Cefndir ar y berthynas rhwng SLCN ac absenoldeb 0cyson

Yn adroddiad Llywodraeth Cymru 'Adolygiad presenoldeb: goblygiadau'r pandemig COVID-19 ar bresenoldeb mewn ysgolion' (2022), tynnodd yr awduron sylw at nifer o resymau oedd yn bodoli eisoes ar gyfer absenoldeb a waethygwyd gan COVID. Roedd hyn yn cynnwys:

- tlodi, anfantais a dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim,
- anghenion arbennig ac anghenion dysgu ychwanegol a
- phryder a iechyd meddwl a llesiant a materion ymddieithriad.

Mae tystiolaeth sylweddol i awgrymu fod mwy o debygrwydd o anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn y grwpiau hyn o ddysgwyr agored i niwed, fel yr ymchwilir ymhellach isod.

*Tlodi ac anfantais cymdeithasol*

Mae sgiliau iaith cynnar da yn ganolog i allu plentyn i gyflawni eu potensial addysgol a gwella eu cyfleoedd bywyd. Dengys ymchwil fod cydberthynas gref fodd bynnag rhwng tlodi ac oedi iaith. Mae

astudiaethau o boblogaethau cyfan yn dangos graddiant cymdeithasol clir ar gyfer datblygu iaith, gyda phlant o'r grwpiau mwyaf difreintiedig yn fwy tebygol o fod â sgiliau iaith gwannach na'r rhai o grwpiau mwy breintiedig (Law, 2013). Gall dros **50%** o blant mewn ardaloedd gydag amddifadedd cymdeithasol ddechrau'r ysgol gyda sgiliau cyfyngedig mewn iaith, lleferydd a chyfathrebu **(Locke et al, 2002).**

Dywedodd ymateb Comisiynydd Plant Cymru i'r ymholiad y dylai gweithredu i atal a mynd i'r afael â thlodi plant fod yn ysgogydd allweddol i ostwng absenoldeb o'r ysgol (2022). **Mae'n hanfodol y caiff adnabod a chefnogaeth ar gyfer anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu ei ystyried yn rhan o'r jig-so wrth ystyried ymatebion i absenoliaeth cyson a gyfer y grŵp hwn o ddysgwyr.**

*Anghenion dysgu ychwanegol*

Fel gyda dysgwyr eraill, dengys Llywodraeth Cymru fod presenoldeb dysgwyr gydag anghenion dysgu ychwanegol wedi gostwng drwyddi draw (Llywodraeth Cymru, 2022). Mae anghenion lleferydd, cyfathrebu ac iaith gan 30% o blant yng Nghymru sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. SLCN yw'r math mwyaf cyffredin o angen dysgu ychwanegol yng Nghymru. **Mae'n hanfodol fod dynodi a chefnogaeth ar gyfer SLCN yn cael blaenoriaeth wrth ddatblygu ymatebion polisi i absenoliaeth cyson ar gyfer y grŵp hwn o ddysgwyr.**

*Pryder, iechyd meddwl a llesiant a materion ymddieithrio*

Nododd Llywodraeth Cymru ar bresenoldeb 'Mae patrymau presenoldeb gwael ar gyfer myfyrwyr cyn y pandemig yn aml yn gysylltiedig ag amrywiaeth o faterion gorbryder, iechyd meddwl a lles' (Llywodraeth Cymru, 2022). Canfu ymchwil fod gan lawer o blant a phobl ifanc sydd ag anghenion iechyd meddwl hefyd SLCN ac anawsterau rhyngweithio. Yn aml nid oedd y rhain wedi eu hadnabod yn flaenorol:

- Mae plant gydag anhwylder iechyd meddwl **bum gwaith** yn fwy tebygol o gael problemau gyda lleferydd ac iaith (NHS Digital, 2018).[3]
- Mae gan **81%** o blant gydag anghenion cymdeithasol, emosiynol a iechyd meddwl ddiffygion iaith sylweddol heb eu dynodi (Hollo et al, 2014).[4]

**Mae'r dystiolaeth gadarn hon yn awgrymu y dylid ystyried mynychder yng nghyswllt absenoldeb cyson o fewn y grŵp hwn o ddysgwyr.**

**Beth sydd angen iddo ddigwydd**

Fel y dangosir uchod, mae plant a phob ifanc sy'n fwy tebygol o fod â hanesion gwaelach o bresenoldeb hefyd yn fwy tebygol o fod ag anghenion lleferydd, cyfathrebu ac iaith. Mae'n gadarnhaol ein bod yn cymryd rhan mewn trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru am ganllawiau gwahardd, ymddygiad a phresenoldeb. Fodd bynnag, credwn yn gryf fod angen sicrhau fod y gweithlu addysg ehangach yn ymwybodol o anghenion lleferydd, cyfathrebu ac iaith ac yn medru adnabod a chefnogi anghenion plant a phobl ifanc yn y maes hwn.

Credwn fod angen y camau dilynol i sicrhau y gall staff addysgu addasu eu rhyngweithio a'u haddysgu i gefnogi dysgwyr gydag anghenion lleferydd, cyfathrebu ac iaith. Mae'r camau hyn yn

hanfodol oherwydd mynychder anghenion lleferydd, cyfathrebu ac iaith ymysg grwpiau agored i niwed a'r effaith bosibl os na chaiff anghenion eu dynodi a/neu eu cefnogi.

- hyfforddiant ar gyfer athrawon newydd ac fel datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer aelodau presennol o staff ar sut i gefnogi sgiliau iaith, lleferydd a chyfathrebu, a sut i adnabod a chefnogi anghenion lleferydd, cyfathrebu ac iaith.
- ffocws ar sicrhau y gall staff cymorth gynorthwyo athrawon wrth ddarparu gwasanaethau cyffredinol a gwasanaethau wedi eu targedu i gefnogi datblygiad iaith mewn ysgolion – elfen allweddol o'r cwricwlwm.
- hyfforddiant ar gyfer arolygwyr Estyn i werthuso effaith addysg llafaredd mewn ysgolion, gan adeiladau ar gamau cadarnhaol ymlaen a gymerwyd yng nghyswllt hyfforddiant ar gyfer Arolygiaeth Gofal Plant Cymru ac arolygwyr Estyn yng nghyswllt lleferydd, iaith a chyfathrebu mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar.

## Gwybodaeth bellach

Gobeithiwn y bydd y papur hwn yn ddefnyddiol wrth gefnogi'r drafodaeth. Byddem yn hapus i roi gwybodaeth bellach pe byddai hynny o fudd. Mae ein manylion cyswllt isod.

**Dr. Caroline Walters, Rheolwr Materion Allanol (Cymru), Coleg Brenhinol Therapyddion Lleferydd ac Iaith**

caroline.walters@rcslt.org